# Y DINESYDD

BLWYDDYN NEWYDD DDA

RHIF 8 IONAWR 1974


## TRI CHWARTER CANRIF O GANU



*Dyma lun ô Gôr Meibion Caerdydd gyda'u harweinydd Mr. Samuel Davies. Y llynedd roedd y côr yn dathlu tri chwarter canrif o ganu – cyfnod prysur o gyngherddau mewn pob math o ganolfannau o gwmpas y wlad. Lladdwyd nifer o aelodau yn y ddwy Ryfel Byd ond aeth y côr o nerth i nerth. Mae nifer o straeon difyr ynglŷn a'r côr fel i lawer o gorau eraill – yn ystod un rihyrsal bu'n rhaid cael yr heddlu i reoli'r dyrfa. Un tro hefyd roedd Cofrestrydd y côr yn cwyno wrth yr aelodau am yr absenoldeb parhaol – ond diflannodd yntau wedyn am gyfnod o chwe mlynedd ac ar ôl dychwelyd dywedodd – "Fel ro'n i'n deud, am yr absenoldeb 'ma . . . .".*

*Pob hwyl i'r côr yn y dyfodol.*

# YR WLPAN

gan CHRIS REES

**Fe ddywedwyd gan wr cyfrifol ar ddiwedd y ganrif ddiwethaf, fod chwe mis o dan ddaear yn ddigon i droi unrhyw Sais yn Gymro. Wn i ddim faint o oriau oedd mewn wythnos waith yn yr oes ormesol honno - ond a derbyn 60 fel ffigur crwn, golygai chwe mis yn y gwaith glo 1500 o oriau cyswllt a'r iaith. I gael eu cyfwerth i'r dysgwr heddiw byddai gofyn iddo ddilyn dosbarth nos wythnosol am tua 25 mlynedd yn ddifwlch.**

Yn Israel heddiw ystyrir bod pum mis yn ddigonol i ymfudwr feistroli'r Hebraeg - dim ond iddo ddilyn cwrs o hyfforddiant trylwyr mewn sefydliad arbennig. Y sefydliad hwn yw'r "wlpan" ac ynddo fe weithir wythnos chwe diwrnod o wyth awr yr un (Mae hyn yn ychwanegol, gyda llaw, at yr oriau o astudiaeth breifat dan gyfarwyddyd tiwtor). Sicrheir felly gyfanswm o rywle rhwng 800 a 950 o oriau cyswllt a'r Hebraeg.

### DAL EIN TIR

Fe welir felly'n eglur pam mae cyn lleied o'n dysgwyr brwdfrydig yn troi'n Gymry Cymraeg. Erbyn hyn mae cynhyrchu Cymry newydd yn fater o raid - a hynny nid fesul ugain a chant ond fesul mil a deg mil. Os llwyddwn i greu 11,000 o siaradwyr newydd yn flynyddol o hyn tan 1981, yna bydd gennym ryw siawns o ddal ein tir yn y Cyfrifiad - dal ein tir yn unig, cofiwch, nid cynyddu.

Does dim cysur yn sefyllfa'r iaith yn 1973 ond mae gobaith - gobaith sy'n deillio o ddau beth - y diddordeb cynyddol yn y Gymraeg gan bobl mewn oed a'r cyfnod cymharol fyr o oes dyn ar y ddaear sy'n ddigonol i feistroli iaith arall. Mae'r awydd i wybod Cymraeg yn bendant ar gynnydd. Yn wir byddai'n fwy eto petai rhagor o bobl yn llwyddo. Y diffyg llwyddiant yw'r bwgan mawr a'i achos yw nid aneffeithiolrwydd athrawon na dulliau dysgu ond yn syml prinder yr oriau.

### 100 AWR YN UNIG

Dyma paham y penderfynodd rhai ohonom yng Nghaerdydd geisio hyd y gallem i efelychu ymdrechion yr Israeliaid. Mewn cyfarfod bach yng nghartre Nia ac Ethni Daniel yn ôl ym mis Medi fe sefydlwyd Wlpan cyntaf Cymru - y gyntaf o blith, gobeithio. Ond yn lle 800 neu 900 o oriau penderfynwyd rhoi cynnig ar 100 yn unig a'r rheiny i gyd o fewn un tymor.

Doedd gennym ni ddim disgyblion nac athrawon. Mae yna ddigon o athrawon ail-iaith ymroddedig yn y cylch ond maen nhw i gyd yn bobl mor brysur roedd dyn yn petruso cyn eu llwytho a rhagor o waith. Eto, o gael digon o enwau a dosbarthu ein hadnoddau'n ofalus roedd hi'n bosibl na fyddai rhaid gofyn gormod gan neb. Ni chawsom ein siomi. Cytunodd bron ugain i'n helpu.

Roedd ffurfio dosbarth yn fwy o broblem. A fyddai 12 neu ragor o ddysgwyr yn barod i anghofio am bopeth arall a dod bob mis hyd ddechrau Rhagfyr. Aethom o gwmpas y newydd-ddyfodiaid ar noson agoriadol dosbarthiadau Canolfan yr Urdd yn Conway Road yn gwahodd gwirfoddolwyr. Pwysleisiwyd bod angen cefndir o addysg dda ac y byddai rhaid i'r Gymraeg fod yn brif beth eu bywyd nhw am y misoedd nesaf.

### COLLI UN

Ar nos Lun 28 Medi daeth 12 ynghyd. Un wythnos ar ddeg yn ddiweddarach ar nos Wener 7 Rhagfyr roedd 11 yn bresennol. Un yn unig a gollwyd trwy'r cwrs i gyd a hwnnw wedi symud o Gaerdydd oherwydd ei waith. Ar ôl tair wythnos fe beidiwyd a siarad Saesneg. Ar ol saith wythnos gorffenwyd y gwersi ffurfiol ar y patrymau, wedi ymarfer y prif gystrawennau i gyd a phob amser o'r ferf. Bu pum tim o athrawon wrthi un gwahanol ar gyfer pob noson o'r wythnos. Dyma nhw:- Nos Lun Bernard Evans, Catrin Davies, Chris Rees. Nos Fawrth Nia Daniel, Ethni Daniel, Gwyn Jarvis, Heather Keane. Nos Fercher Watcyn Jones, Ann Rosser, Iolo Walters, Geraint Huws. Nos Iau Mair Parry, Eleri Dafydd, Angharad Evans, Mair Robbins. Nos Wener Gwilym Roberts, Gerwyn Davies, Ken Kane, John Blake.

Yr 11 Wlpanic oedd Christine Madden, Terry Stevens, John Osmand, Althea Osmand, Robert Hargreaves, Daivd Wright, Gerald Brenchley, John Couch, Richard McIlwraith, Daniel Feehan, John Hartley - pump ohonyn yn Saeson.

### DYSGWYR CYMRAEG

Y cwestiwn mawr yw a ydyn nhw erbyn hyn yn Gymry Cymraeg? Yr ateb yw - ydyn; dim ond iddyn nhw gredu hynny a defnyddio pob cyfle i ymarfer a chymdeithasu. Y perygl yw i'r dysgwr feddwl fel dysgwr ac ymddwyn fel dysgwr ac aros yng nghwmni ei gyd-ddysgwyr neu ei athrawon. Yn hyn o beth byddai'n dda wrth lawer mwy o fywyd cymdeithasol Cymraeg yng Nghaerdydd yma a bywyd mwy amrywiol hefyd. Bydd rhaid ei drefnu yn y dyfodol.

Yn y cyfamser, y cam nesaf yw'r ail Wlpan. Cynhelir y cyfweliadau yng Nghanolfan yr Urdd, Conway Road, ar nos Iau, 17 Ionawr. Agorir y dosbarth nos Lun wedyn. Os gwyddoch am rai sy'n fodlon mentro rhowch wybod iddyn nhw. Y gobaith yw ehangu a datblygu. Mae eisiau eich cymorth.

"Anwylfeib y Ganolfan - a minnau  
Ymunwch yn gyfan,  
Heddiw oll yn ddi-wahan,  
I helpu gyda'r Wlpan."

**Mae'r argyfwng economaidd yn effeithio ar gynhyrchu 'Y Dinesydd' fel pob dim arall. Fodd bynnag fe geisir cael y rhifynnau allan mor brydlon ag sy'n bosib.**

# GRWPIAU TRAFOD

**Ers tro bellach, bu'r hyn a elwir yn Grwpiau Trafod yn boblogaidd ac yn llwyddiannus iawn yng Ngheredigion. Fe redir y grwpiau hyn gan Gymdeithas y Celfyddydau, Gorllewin Cymru, Adran Efrydiau Allanol Coleg y Brifysgol, Aberystwyth, a'r Cyngor Llyfrau Cymraeg, ond i ddechrau, syniad y gwr llawn syniadau hwnnw, Mr. Alun Edwards, Llyfrgellydd Ceredigion, y doedd.**

Nid oes angen mwy na 10 aelod yn y Grwp unigol. Gallant gwrdd mewn ysgol, mewn ystafell yn y llyfrgell leol, mewn capel neu hyd yn oed mewn ty - a'r pwrpas, bob tro, ydyw darllen a thrafod llyfrau Cymraeg ar wahanol byncίau. Cyfarfyddir yn rheolaiss, ac mewn gwirionedd dosbarth allanol ydyw'r grwp. Felly fe godir tal bychan ar bob aelod. Nid oes rhaid prynu'r llyfrau a ddarllenir; fe'u ceir yn fenthyg yn rhad ac am ddim, ac mae digon o ddewis yn y rhai a gynigir i'w darllen. Trefnir tiwtor i bob grwp.

Yr ydym ni, yng Nghaerdydd yn gobeithio y bydd pedwar grwp o leiaf yn cyfarfod yn y flwyddyn newydd ac ymlaen hyd at diwedd mis Mawrth, chwe gwaith (sef unwaith pob pythefnos). Bydd y grwpiau yn Llandaf, yn ardal Llyn y Rhath, ac yn Rhiwbeina (2). Oherwydd yr anawsterau sy'n hysbys i ni i gyd trefnir bod pawb yn byw o fewn pellter cerdded i'w man cyfarfod, a bod hwnnw yn nhy un o aelodau'r grwp. Mae tiwtor wedi ei apwyntio ar gyfer pob un o'r grwpiau. Am fod pob grwp yn cael ei ystyried, felly, yn ddosbarth o Adran Allanol y Brifysgol (Coleg Caerdydd) rhaid codi tal ar bob aelod (60 ceiniog). Mae nofel ddiweddar, storiau, barddoniaeth, drama, ysgrifau a bywgraffiadau ymhlith y dewis o lyfrau a roir i'r grwpiau, ond nid oes rhaid eu prynu am fod trefniant rhyngom a'r Cyngor Llyfrau Cymraeg i'w benthyca'n rhad ac am ddim.

Mae croeso i ffurfio rhagor o'r grwpiau hyn. Byddai unrhyw un ohonom ni'n dau yn falch iawn i glywed oddi wrthych, gorau po gynta.

Meredydd Evans,  
81, Shirley Road (ffon 23554),  
neu Mair Elvet Thomas  
Tre Llwydyn,  
26 Gerddi Plasturton  
(ffon 22589)

# Llythyrau at y Golygydd

*Canolfan yr Urdd*
*Heol Conwy*
*Canton.*

*Annwyl Olygydd,*

*Mae Canolfan yr Urdd wedi cael tipyn o feirniadaeth yn eich rhifynnau diweddar o'r Dinesydd. Rwy'n derbyn beirniadaeth fel peth da o dro i dro. Bob wythnos gwelwn rhyw 500 - 600 o bobl yn croesi'r trothwy i ddefnyddio'r ganolfan - a rydym yn siwr o wneud camgymeriadau bach o dro i dro sydd ddim wrth fodd pawb.*

*Ond mae na ochr arall i'r ddalen hefyd. Rwyf am gyfeirio at - a diolch i'r 30 a rhagor o athrawon a hyfforddwyr sydd yn dod yma, a rhoddi dwy neu dair awr yr wythnos, (rhai ohonynt mwy na hynny) o waith gwirfoddol heb geiniog o dal er mwyn hybu iaith a diwylliant Cymru - a hynny wythnos ar ol wythnos. Hebddynt hwy, ni fyddai yna Ganolfan yr Urdd yng Nghaerdydd. Mae fy nyled yn fawr iddynt.*

*A gaf i felly daflu her i'r bobl hynny sydd yn hoff o weld y Ganolfan yn cael beirniadaeth sal yng ngholofnau eich papur? Beth am i chi ddarllenwyr ddod i'r Ganolfan i ymuno a'r criw o wirfoddolwyr, i helpu hybu'r Gymraeg a Chymreictod ym mhobl ifanc Caerdydd drwy sgwrsio, chwarae adloniant ag ati? Mae angen rhagor o gynorthwywyr beirniadol neu beidio, yn enwedig ar nos Fawrth (6.30) ac ar nos Wener (7.30). Fe fyddaf yn falch o'ch cymorth.*

*Ian ap Dewi*
*Pennaeth y Ganolfan.*

*Annwyl Syr,*

*Mae aelodau Cell Caerdydd o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg yn bryderus iawn ynglyn a sefyllfa'r iaith Gymraeg yn ein hysgolion yn y Brifddinas. Pan ddaw pwyllgor Addysg De Morgannwg i rym, rhaid gweld yr iaith Gymraeg yn cael sylw blaenllaw yn y cynlluniau am y dyfodol.*

*Ysgrifennwn atoch, fel cadeirydd y pwyllgor newydd, gan obeithio y defnyddiwch chi eich dylanwad i gefnogi'r iaith yn ei brwydr. Er mwyn bod yn adeiladol a phendant, dyma ein awgrymiadau mewn deuddeg pwynt.*

*Gofynnwn i Awdurdod Addysg De Morgannwg:-*

*1. Rhoi lle teilwng i'r Gymraeg drwy sicrhau fod yr iaith yn bwnc sylfaenol ar amserlen holl ysgolion cynradd yr awdurdod.*
*2. Sicrhau o leiaf un wers o hanner awr y dydd, bob dydd, i bob plentyn yn yr ysgolion cynradd (yn unol ag addewid dinas Caerdydd ym Medi 1973).*
*3. Fod gwersi Cymraeg ar amserlen dosbarthiadau 1, 2 a 3 pob ysgol uwchradd o fewn y sir.*
*4. Sefydlu tair uned dwy-ieithog ym Medi 74 yn ychwanegol i'r tair a sefydlwyd yn 1973. (yng Nghaerdydd) a sefydlu o leiaf 3 arall bob blwyddyn gyda'r amcan o greu rhwydwaith o unedau dwy-ieithog drwy'r awdurdod, i roi'r cyfle hwn o fewn cyrraedd synhwyrol i bob plentyn.*

*Dylid sefydlu'r unedau mewn ysgolion ble ceir:*
*(a) Cefnogaeth frwd prifathrawon*
*(b) Cefnogaeth rhieni*
*(c) Ystafelloedd gwag ag addas mewn ysgolion.*
*5. Sefydlu ysgolion meithrin Cymraeg (o dan awdurdod) gyda'r prif amcan o fwydo'r unedau dwyieithog. Gofynnir i'r awdurdod ymgynghori a Mudiad Ysgolion Meithrin yn y mater hwn.*
*6. Annog holl brifathrawon o fewn yr awdurdod, ysgolion cynradd ac uwchradd, i drefnu fod astudiaeth o Gymru ar yr amserlen.*
*7. Rhyddhau athrawon i*
*(a) dilyn cwrs i ddysgu Cymraeg (cwrs blwyddyn)*
*(b) arloesi ym myd astudiaeth o'r amgylchfyd, ac i'w rhyddhau mewn grwpiau i lunio gwaith - llyfrau, cardiau gwaith, ymchwil ag ati, gyda'r bwriad o ddefnyddio Cymru yn hytrach na Phrydain fel uned.*
*8. Cydnabod swydd arbenigwr yn y Gymraeg wrth gynnig naill ai:*
*(a) graddfa 2, neu*
*(b) creu graddfa newydd fel y ceir am waith arbennig arall ym myd addysg (e.e. E.S.N., ardaloedd tlawd)*
*9. Sicrhau fod holl lenyddiaeth yr awdurdod, yn enwedig:-*
*(a) cylchlythyrau i ysgolion*
*(b) tystysgrifau teilyngdod a gyflwynir i ddisgyblion (e. e. tystysgrifau nofio, rhedeg ac ati) yn ddwyieithog*
*10. Dangos arweiniad i Gyngor De Morgannwg drwy ei annog i dderbyn egwyddor sylfaenol gydag enw y sir newydd.*
*11. Codi arwydd ddwy-ieithog y tu allan i bob ysgol yn yr awdurdod gyda'r enw Cymraeg yn cael blaenoriaeth.*
*12. Rhoi cynrychiolaeth deg i Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru ar y Pwyllgor Addysg (yn unol a chanol a Dwyrain Morgannwg.)*

*Credwn fod y cynlluniau hyn yn gwbwl weithredol o fewn eich llywodraeth. Rydym yn sicr eich eich bod yn sylweddoli, cystal a ninnau, ar yr unfed awr ar ddeg - ac yn wyneb holl anawsterau - fod yr iaith Gymraeg mewn argyfwng.*

*Rhaid i ni, felly, fel pobl Cymru weithio gyda'n gilydd i fynd a'r maen i'r mur - i sicrhau dyfodol i'r Gymraeg, i Gaerdydd fel prifddinas i Gymru fel Cenedl.*

*Yn gywir iawn,*
*GWERFUL ARTHUR*
*Cysylltwraig.*

## GENI

**1 Gareth a Menna Roberts, Bryn yr Hedydd, 9 Gwaun Hyfryd, Caerffili, ganed merch ar Ionawr 3, Llinos Rhianedd.**

# YMDRECH PLANT LLANISHEN

Ar Chwefror y 9fed, 1974, yn Neuadd yr Ysgol feddygol, bwriada Cor Plant Llanishen roi eu Cyngerdd Blynyddol 'Sain, Cerdd a Chan'. Y tro hwn aiff yr elw i gangen Caerdydd o N.A.W.C.H. (National Association for the Welfare of Children in Hospital).

Mudiad yw hwn sydd eisoes wedi casglu beth arian trwy wahanol weithgareddau i helpu plant sydd yn gorfod aros mewn ysbytai am hir amser. Gellir deall fod rhai o'r rheini yn eu chael yn anodd iawn i fforddio'r gost o fynd i'w gweld yn gyson, y teuluoedd yma sydd yn derbyn help gan y gymdeithas, un ai trwy gael eu cludo yn rhad, neu arian i dalu y cludiad. Gofala y gymdeithas hefyd am brynu teganau i blant Rhydlafar, ac am gario plant sydd mewn ysgolion fel Erw'r Delyn yn ol a blaen i'w cartrefi ar adeg gwyliau ysgol.

Gyda'r Cor Plant eleni bydd Elinor Bennett (Telyn) Iwan Davies (tenor - enillydd y Rhuban Glas yn Rhuthyn) ac Eiri Wyn (Soprano) o Fangor. Yn cyfeilio i'r plant bydd Menna Bennett Joynson telyn a Beryl Lloyd Evans piano. Robin Jones B.B.C. fydd yn cyflwyno.

Os hoffech ddod, mae tocynnau i'w cael gan Beti Wyn Jones, Menai, 31 The Rise, Llanishen, am 50c a 25c i blant.

**Carai'r Bwrdd Golygyddol gydnabod yn ddiolchgar gymorth ariannol Cymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru.**

Cyfarwyddyd gan "ein heconomegydd" am y flwyddyn newydd.





*"Hen feic peni-ffardding fy nhaid,*
*Wel sticio at hwnnw sydd raid".*

# Arddangosfa

Bwriedir cynnal arddangosfa o beintiadau a cherfluniau yng Nghanolfan yr Urdd yn ystod y Gwanwyn. Y syniad yw i beintwyr a cherflunwyr lleol Cymraeg ddangos ei gwaith, a'r rhai fydd yn awyddus i werthu ei cynnyrch i fedru gwneud hynny.

Deallir fod na lawer o artistiaid Cymraeg o gwmpas Caerdydd byth yn cael y siawns i ddangos ei gwaith. Wel dyma'r cyfle. Bydd yn bosibl i unrhyw berson sydd am ddangos neu gwerthu naill ai peintiadau, arluniau, cerfluniau wneud hynny drwy gysylltu gyda Ian ap Dewi, Canolfan yr Urdd, Heol Conwy, Canton. (Caerdydd 36201)

**9½ %**
*y flwyddyn*
**11 mis o rybudd i dynnu allan**
**Lleiafswm i agor cyfrif £100**
**Gellir talu llog heb dynnu treth incwm oddi wrtho.**
**Banc Masnachol Cymru Cyf.**
**114 - 116 Heol Eglwys Fair, Caerdydd**
**Tel: 396131**
**Cofrestrwyd yn Lloegr: Rhif 1002110**
Anfoner y manylion os gwelwch yn dda.
Enw ..............................
Cyfeiriad ..............................



GAN FOD TELEDU YN GORFFEN Y DYDDIAU HYN AM 10.30 P.M. GELLWCH GAEL CYFLE I AIL-DDARGANFOD GWRANDO AR GERDDORIAETH WYCH AR Y CYFARPAR GORAU MEGIS SONY; B & O; ECKO; PYE ac eraill.
CEWCH DDEWIS DA YN
**Dan Evans**
*Y BARRI 4242*

# IEUAN RHYS WILLIAMS



**Pan yn hebrwng gweddillion Ieuan Rhys Williams i Thornhill dydd** Gwener Rhagfyr 7, fu arna i erioed fwy o hiraeth ar ôl cyfaill, ac felly y teimlai y lliaws cyfeillion eraill a ddaeth y dydd trist hwnnw i ffarwelio a Ieuan.

Ddeugain mlynedd yn ol y gwelais ef gynta erioed yn cerdded i mewn i stiwdio'r B.B.C. Park Place yn ŵr ifanc talgryf, main. Cymerai ran yn y ddrama Gymraeg "Crug y bar" o waith y diweddar Rhys Dafis Williams - un o'r dramau Cyntaf a ddarlledwyd yng Nghymru. Roeddem yno ein dau ynghanol y genhedlaeth gynta o'r actorion radio, Gunstone Jones, Peter Edwards, Philipiaid Gwaelod y Garth, Jac James, Dan Mathews ac eraill. Ac i draddodiad actol y Cwmni hyn y perthynai Ieuan. Gyda rhain a'u tebyg y dechreuodd yng Nghwmtawe a'r cylch ar lwyfannau'r wlad. Cymeriadau mawr oedd rhain - unigolion mawr fel actorion. Yn wir, nhw oedd y ddrama slawer dydd - cymeriadau grymus eu portreadau fel Dan Mathews, a Gwynfor yn y gogledd, a oedd yn tramwyo'r wlad yn gwefreiddio cynulleidfaoedd enfawr led-led Cymru. A'r fath unigolyn oedd Ieuan! Pwy a anghofia ei bortreadau grymus yntau am flynyddoedd lawer ar y radio a'r teledu - "Wil Six" ar y radio o Fangor yn y cyfnod cynnar, ac ar y teledu Huws Huws yr A.S. hwnnw yn "Excelsior" (Saunders Lewis) "De Breos" yn Llewelyn Fawr (Tom Parry) i enwi ond rhai o blith ei dramau gorau? A phwy allai ddweud "Wi Wir i ddyn iti Ty-Ty-Ty-Ty-Twm Twm", fel Ieuan? Ie, actor mawr o'i ben i'w sawdl, a chwmniwr llond pob lle oedd Ieuan. Roedd yn ddihysbydd ei adnoddau ac yn fwrlwm o dalentau, gymaint felly, fel y tueddai i orwneud yn amal. Byddai'r cynhyrchydd yn gwaeddu o'i gornel weithiau "Llai o lais, llai o swn, Ieuan!" Byddai'n gorwneud fel digrifwr a storiwr hefyd - ond y fath storiwr gyda'i ddychymyg a'i gof anhygoel! Byddai'n dynnwr coes, ac yn mynd yn rhy bell yn hyn eto, nes gorfodi dyn i'w atal a rhoi taw arno. Beth bynnag, yr eiliad nesaf wedi iddo feddwl fod wedi eich brifo yn y modd lleiaf, mi fyddai'n "troi" ac yn edifarhau fel plentyn - "Oddiar eich troi chwi a'ch gwneuthur fel plant bychain . . ." Dyna'i fawredd fel gwir gyfaill.

Fu neb yn fwy defnyddiol mewn stiwdio. Yn wir, bu'n rhy ddefnyddiol i'w les ei hun. Petai Ieuan wedi cael ei gyfle iawn, gallai fod wedi cyrraedd y ffurflen, ac yn un o'r ser, efallai, yn y byd proffesiynol.

Ond fel cyfaill y cofiwn orau am yr "Hen Ieu" oherwydd tu ol i'r ddawn a'r bersenoliaeth fawr a ymsythai o'ch blaen, roedd calon fawr, dyner, rhadlon-fraf a'i gwnai yn ffrind mawr i bawb. Chwith meddwl "na chawn weled ei wyneb ef mwy." Ei ffarwel arferol oedd ei ffarwel olaf i Mered a minnau "Yr hen bal!" "Os mates!"

Ein cydymdeimlad llwyraf a'r teulu, Lyn, Rhiannon Indeg. Nhw o bawb a deimla'r hiraeth mwyaf ar ol y Cwmniwr mawr.

W. Emrys Cleaver.

# Alun Walters

Bu farw Mr. Alun Walters, St. Ina Road, y Waun ar nos Sadwrn, Rhagfyr 15fed yn Ysbyty'r Heath, ac y mae pawb ohonom a gafodd y fraint o'i adnabod yn ymwybodol o golled fawr. Brodor o Drefach, Llanelli oedd Mr. Walters ac ar ol graddio yng Ngholeg y Brifysgol, Abertawe, daeth i Gaerdydd i ddysgu. Bu'n athro yn Ysgol Gladstone ac yn athro Saesneg yn Ysgol Howardian. Fe'i penodwyd yn brifathro Ysgol Stacey Rd., ac yn fuan iawn daeth yn brifathro Ysgol Heol Hir, Llanishen.

'Roedd yn aelod ffyddlon o Eglwys Dewi Sant - yn ddarllenydd lleyg, ystlyswr ac aelod o Gyngor yr Eglwys am flynyddoedd. Mynychai bopeth, gwasanaethau'r Sul a chyfarfodydd yr wythnos ac ni allai yr un ficer gael cyfaill mwy cywir na chynghorwr doethach. 'Roedd yn wr plaen, didderbyn wyneb, heb fenyg ar ei ddwylo na melfed ar ei dafod. Nid oedd ias o ragrith na ffug yn agos ato ond gwelodd y rhai a ddaeth i berthynas ag ef ei foneddigrwydd grasol a'i ddidwylledd. 'Roedd yn hynod o garedig a pharod ei gymwynas. Perthynai iddo hiwmor a oedd fel awyr iach i'r sawl a ddeuai i'w gwmni ac, o dan y cyfan, llochesai haenen ddofn o ddifrifwch a'i gwnaeth yn gymeriad nodedig o gadarn. Daw i'n rhan weithiau i gwrdd ag ambell enaid detholedig ar daith bywyd, eneidiau sy'n cyfoethogi a'n hysbrydoli. 'Roedd Alun Walters yn un o'r rheini. Cu iawn fu ef gennym ni a hiraethwn am y cyfaill, y cynghorwr a'r aelod ffyddlon. Fe'i cofiwn tra bo gennym y gallu i gofio.

Cynhelir gwasanaeth coffa yn Eglwys Dewi Sant fore Sadwrn, Ionawr 12fed am 10.30.

### CYMDEITHAS CYMRY'R EGLWYS NEWYDD

Chwefror 11eg. Darlith gan Mr. L. H. Angell 'Ddoe a Heddiw. Mawrth 4ydd. Cinio Gwyl Dewi. Prif westai — Parch. G. Noakes, Ficer Dewi Sant. Cynhelir y ddau gyfarfod yn neuadd Bethel am 7.30. Croeso cynnes i Gymry'r Eglwys Newydd a'r cylch.

# IONESCO'N DOD I'R BRIFDDINAS



Cyhoeddodd Cyngor Celfyddydau Cymru ei bod yn rhoi gwobr i awdur o amlygrwydd rhyngwladol yn 1975.

Rhoddir £1,000 i'r awdur Ffrengig EUGENE IONESCO a fydd yn ymweld â Chaerdydd â mannau eraill yng Nghymru yn ystod Hydref 1974.

Ganed EUGENE IONESCO ym 1912, o dras Ffrengig-Rwmanaidd, ac fe'i cyfrifir heddiw, ynghyd â Samuel Becket a Jean Anouilh, ymhlith y dramodwyr pwysicaf sy'n ysgrifennu yn Ffrangeg, ac yn Ewrop. Mae'n awdur toreithiog ac mae wedi ysgrifennu mwy na 30 o ddramâu a hefyd straeon byrion, beirniadaeth, hunangofiant, a llawer o ohebiaeth lenyddol. Yn ddiweddar fe wnaeth ffilm.

Yn ystod ei ymweliad â Chymru, gwestai Cyngor Celfyddydau Cymru a Phrifysgol Cymru fydd Ionesco. Mewn cyfarfod ym Mharis gyda Mr. Meic Stephens yn ddiweddar, cytunodd i gymryd rhan mewn seminarau yn Adrannau Ffrangeg Colegau'r Brifysgol ac ymweld â theatrau ym mhob rhan o Gymru, lle y gobeithir rhoi perfformiadau o'i ddramau mewn Ffrangeg, Cymraeg a Saesneg. Yn ystod ei ymweliad, cyhoeddir fersiwn Gymraeg o rai ô ddramau Ionesco gan Wasg Prifysgol Cymru yn y gyfres 'Y Ddrama yn Ewrop', Fe gyfieithwyd un ddrama dan y teitl 'Ysglyfaeth Dyletswydd', ac arfaethir cyfieithiad o'i nofel i'r Gymraeg erbyn y daw yma.

Wrth gyhoeddi'r Wobr, dywedodd Mr. Meic Stephens, 'Dyma'r tro cyntaf i Gyngor Celfyddydau Cymru ddyfarnu Gwobr i awdur o amlygrwydd rhyngwladol. Bwriedir rhoi'r Wobr yn flynyddol o 1974 ymlaen. Yn y ffordd hon, gallwn wahodd rhai o awduron blaenllaw'r byd i Gymru. Gobeithiwn hefyd y bydd i gymaint o bobl ag sy'n bosibl, o'r tu fewn a thu allan i'r Brifysgol, gan gynnwys awduron a chynrychiolwyr y theatr a'r teulu, gael cyfle i gwrdd ag Eugene Ionesco, a thrafod theatr a llenyddiaeth gyfoes gydag ef. Gwyddir ei fod a chydymdeimlad brwd a chenedloedd bychain, ac y mae'n edrych ymlaen at ymgydnabod a bywyd diwylliannol Cymru. Mae'n arbennig o addas fod yr awdur hwn, sydd wedi cyfrannu gymaint at ddatblygaid y theatr yn Ffrainc ac yn Ewrop yn dod i Gymru ar adeg pan fo cymaint o theatrau newydd yn agor yn y wlad hon.'


AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU

AMGUEDDFA WERIN CYMRU

Teipydd

Apwyntir yr ymgeisydd llwyddiannus i gynorthwyo yn Adran Traddodiadau llafar a Thafodieithoedd. Rhaid wrth wybodaeth drylwyr o'r Gymraeg ac o deipio. Gallu llawfer neu godi oddi ar lafar yn gymhwyster ychwanegol. Gall y cyflog fod ar radd Teipydd llaw-fer Gradd 11/1 £14.50 (oed 18) yn codi i £25.89 yr wythnos.

Manylion pellach a ffurflenni cais oddi wrth y Swyddog Gweinyddol, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd CF5 6XB, a dylid dychwelyd ceisiadau erbyn 25ain Ionawr 1974.



**Blwyddyn Newydd Dda i'n gwylwyr a'n darllenwyr!**




i'w gyhoeddi'n fuan —
Ail lyfr Miri Mawr
Mor o ddiddanwch i'r plant
— holwch eich llyfrwerthwyr
Dosbarthwyr Christopher Davies

cyhoeddiadau
or
Ganolfan
Deledu
Caerdydd

*Cyhoeddiad arall i Blant Cymry gan* HTV CYMRU WALES





yn awr yn y
siopau llyfr
newydd

WYNFORD VAUGHAN-THOMAS
'The Splendour Falls'
dros 140 o dudalenau,
lluniau lliw
Hanes datblygiad
y cestyll yng Nghymru.
pris £2.50

# MAES Y PLANT

**BLE MAE HWN?**



Dyma ichi lun eto o gamera Huw Jenkins. Tybed a yw e wedi'ch dal chi'r tro hwn? Gan nad oes neb am ateb, does dim diben i mi gynnig cystadleuaeth y tro hwn, ond os carech chi anfon gair, fe fyddem yn falch clywed oddi wrthych chi.

**AR WERTH?**

Wedi i Sion Corn fod o gwmpas, hwyrach fod rhai ohonoch chi'n teimlo fel cael gwared ar rai o'ch teganau – ac mae'n bosibl y byddai rhai eraill yn falch o'u cael nhw. Oes gennych chi ryw degan y carech ei werthu, anfonwch bob manylyn amdano i'r Dinesydd, a hwyrach y gallwn ni ei werthu ichi!

**MAE'N GWELLA!**

Pan ai Huw lawr i'r ddinas gyda'i dad nawr ac yn y man, roedd e'n methu a deall beth oedd yr "L" goch a welai ar gwt i gar – ac o'r diwedd, dyma fe'n gofyn i'w dad.

"Pan fo person yn dysgu gyrru car," medde hwnnw, "rhaid iddo fe gario'r "L" goch yna – dyna lythyren gynta'r gair Saesneg, LEARNER!"

Pan aeth Huw i'r dre gyda'i dad rai dyddiau'n ddiweddarach, fe welodd gar yn pasio, a G.B. ar ei gwt e, a medde fe,

"Drychwch, dad! Getting better!."

**BLWYDDYN NEWYDD DDA!**

Mae'r rhan fwyaf ohonoch chi'n byw mewn dinas ac yn gorfod dibynnu ar eich rhieni am eich arian poced. Gobeithio nad yw eich rhieni chi mor greulon a pheidio a rhoi arian poced ichi – achos dyna'r ffordd orau o ddysgu sut y mae trin arian – cael ychydig ohono i'w wario, neu ei gadw.

Ond pe baech chi'n byw yn y wlad, fyddai dim angen ichi boeni am arian poced ar ôl y cyntaf o Ionawr. Fe fyddai gennych chi ddigon o arian ar ôl bod yn hel calennig. Mae llawer o bobo Cymru erbyn hyn yn ystyried ail gychwyn hen arferion – ac fe fyddai'n syniad da i rai ohonoch chi, blant y ddinas ddechrau hel calennig. Dyna ffordd dda o hel arian. Y cyfan sy raid ichi wneud yw aros i'r cyntaf o Ionawr waw rio. Yna, allan a chi a sefyll wrth ddrws tŷ teulu Cymraeg, a gweiddi, "Blwyddyn Newydd Dda". Os mai chi fydd y cyntaf i wneud hynny fe ellwch gael deg ceiniog newydd – a hynny sawl gwaith trosodd. Beth amdani'r flwyddyn nesaf?

Roedd ffrind i mi yn mynd i hel calennig unwaith, ac roedd wedi ennill llawer o arian wrth fynd o dy i dŷ i ganu, "Blwyddyn Newydd Dda". Yna, fe ddaeth at dy'r meddyg a sylweddoli nad oedd hwnnw na'i wraig yn siarad Cymraeg. Wyddai yntau mo'r Saesneg am "Blwyddyn Newydd Dda," a dyma fe'n gweiddi nerth ei ben, "Many happy returns of the day!" Chafodd e ddim dimai!

**TU OL TU BLAEN 1 - 2 - 3!!**

Fedrwch chi feddwl am frawddeg sy'n darllen yr un ffordd tuag yn ol a thuag ymlaen. Dyma ichi un ymadrodd,

LLADD DAFAD DDALL

*

Dwy fenyw yn gyrru pobo volkswagen i lawr y ffordd ac fe stopiodd un yn sydyn a dyma'r llall yn aros i helpu er nad oedd yr un o'r ddwy'n deall dim byd am geir.

Dyma'r fenyw gyntaf yn codi'r boned tu blaen a gweld nad oedd dim injan yno.

"Brenisach yr adar," medde hi, "mae'r injan wedi cwympo allan. Be wna i nawr?"

A medde'r llall gan fynd tu ôl y car, "Paid a phoeni dim, mae gen i injan sbar yn y bwt!"

*

Roedd dyn yn mynd ar ffordd fynydd ar gefn moto beic, a chan ei bod mor oer, roedd wedi gwisgo'i gôt tu ôl tu blaen a'i botymu'r tu ol – ffordd dda i gadw'n gynnes – ond byddwch yn ofalus!

Achos fe gafodd y dyn yma ddamwain. Wrth geisio osgoi car yn y nos, fe syrthiodd oddi ar ei feic a disgyn mewn ffos. Fe ddaeth gyrrwr y car allan a rhedeg i weld a allai helpu'r truan, a dyma fe'n gweld botymau'r got yn ei wynebu ac wyneb y dyn ym mwd y ffos.

"Druan ag e," meddai gyrrwr y car. "Cystal imi dwistio'i ben e'n ol i'r ffordd iawn." A dyna wnaeth e! Aeth y dyn ddim ar gefn moto beic wedyn!

*

**PROBLEM IFOR**

*Fe ofynnodd ei athrawes i Ifor wneud triongl o ddeg o gylchoedd, a chan fod Ifor yn gwybod popeth am gylchoedd, fu e ddim chwinciad llygad llo yn gorffen y gwaith.*

*Ond fe roddodd yr athrawes broblem arall iddo. Medde hi,*

O O O O

O O O

O O

O

*"Nawr, Ifor, mae trwyn eich triongl chi yn pwyntio i lawr – tua'r de. Rwy i am i chi ail osod eich triongl fel bo'r trwyn yn pwyntio tua'r gogledd."*

*"Mewn munud, Miss. Hawdd!" medde Ifor.*

*"Hanner munud," meddai Miss Jones. "Chewch chi ddim symud mwy na thri chylch ond fe fedrwch chi roi'r rheiny fel ag y mynnoch chi."*

*Fedrwch chi helpu Ifor? Y ffordd orau i fynd ati hi yw gosod deg ceiniog ar y ford, yn union fel y gosododd Ifor ei gylchoedd, a symud tair ceiniog i gael y patrwm o driongl yn wynebu tua'r gogledd. Pob hwyl!*

*Gyda llaw, beth am anfon pos i'r Dinesydd? pos i geisio twyllo'ch ffrindiau ag e? Fe fyddwn i'n falch cael pos. Cofiwch, eich tudalen chi yw hon. Anfonwch i Mr. W. J. Jones, 46 Crystalwood Road, CAERDYDD.*

## Y Gystadleuaeth

**Fe fu rhaid imi anfon tudalen y plant i'r wasg y tro diwethaf cyn imi dderbyn un ateb i'r cwestiwn, "Ble mae hwn?" Ond fe ddaeth un cerdyn i law (dim ond un, cofiwch) rai dyddiau ar ôl hynny. Perchennog y cerdyn oedd Alys Owen, 17 St. Isan Road, Y Waun, Caerdydd – ac mae gwobr o lyfr Cymraeg yn mynd iddi am roi ateb cywir. A'r ateb oedd, "Twr cloc castell Caerdydd" – llun rhifyn Tachwedd.**

**Ond chefais i'r un ateb i gystadleuaeth rhifyn Rhagfyr dim un, cofiwch, o holl blant Cymraeg Caerdydd yn barod i gystadlu er mwyn ennill llyfr i'w ddarllen. Ah wel, does dim i'w wneud ond cadw'r llyfrau a'u darllen nhw fy hunan. Ond roedd y llun yn hawdd i'w adnabod – llun copa Neuadd y Ddinas Caerdydd. A gyda llaw, ydych chi wedi gweld Neuadd y Ddinas yn ddiweddar? Mae hi bron mor wyn ar eira ar ol cael ei sgwrio a'i sgwrio am wythnosau i gael y baw oedd wedi treiddio i mewn i'r garreg i ffwrdd. Fe fydd yn lân am rai blynyddoedd, ond cyn hir, fe fydd y baw yn treiddio fel o'r blaen i'r garreg a'i throi'n llwyd. Pe na baech chi'n cael bath bob hyn a hyn, dyna fyddai'n digwydd i chi, hefyd!**




**AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU**

Clerc/Teleffonydd

Gwahoddir ceisiadau am y swydd uchod yn Amgueddfa Werin Cymru. Bydd yn gofalu am fwrdd teleffon PABX Bydd personoliaeth ddymunol a'r gallu i siarad Cymraeg a Saesneg yn hanfodol. Gallu i deipio yn fantais. Cyflog £14.49 (oed 18) yn codi i £24.94 yr wythnos.

Manylion pellach a ffurflenni cais oddi wrth y Swyddog Gweinyddol, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd, a dylid dychwelyd ceisiadau erbyn 25ain o Ionawr 1974.

**CÔR POLIFFONIG CAERDYDD**

*Arweinydd:* Roy Bohana.

**CYFRES GYNGHERDDAU YN EGLWYS GADEIRIOL LLANDAF**

1. **Sadwrn, Hydref 20, 1973 am 8.0 p.m.**
   Vesperae Solennes – Mozart
   Paukenmesse – Haydn
2. **Sadwrn, Rhagfyr 8, 1973 am 8.0 p.m.**
   Cerddoriaeth ar gyfer y Nadolig.
3. **Sadwrn, Chwefror 16, 1974 am 8.0 p.m.**
   Cerddoriaeth y cyfnod polifffonig.
   *Arweinydd:* Marin Constantin.
4. **Sadwrn, Mawrth 9, 1974 am 7.30 p.m.**
   Messiah – Handel.

Tocynnau cyfres £2.50, noddwyr £5.00, tocynnau sengl 50c. a 75c. ar gael oddi wrth Mr. J. M. Williams, Argoed, Craig Pen-llin, Y Bont-faen, rhif tel. Y Bont-faen 3623.

# OLION RHAGFYR

Mis yr Wyl llawn gogoniant
Mis dathlu, a pharti plant
Mis prysur a mis presant

* * *

Ar ddechrau'r mis cafwyd pedair noson o berfformiadau o'r ddrama 'The Silver Curlew', gan fyfyrwyr y Coleg Cerdd a Drama yn Theatre Bute ar Heol y Gogledd Perfformiad godidog oedd hwn, a'r plant yn y gynulleidfa yn cael mwynhad pur o'r chwarae ysgafn. Cyn hir, gobeithio, bydd myfyrwyr y Coleg yn symud o'r Castell i'w hadeiladau newydd. Tybed oes gobaith i ni gael cyflwyniad yn y Gymraeg gan y myfyrwyr, yn y blynyddoedd sydd i ddod? Hei lwc.

Bu'n Nadolig bondibethma i Gymry bach y ddinas. Partion Nadolig diri - y capeli, ysgol Bryntaf, Yr Ysgolion Meithrin, Adran yr Urdd Rhiwbeina, Uwch Adran Rhiwbeina, ac Uwch Adran Heol Conway yn gwahodd aelodau'r adran yng Nghaerffili i ymuno yn yr hwyl. Diolch o galon i bawb fu'n trefnu y gwleddoedd hyn.

* * *

Cafodd carwyr llen y cylch noson fawr ar Ragfyr 13. Yng Nghylch Llenyddol Caerdydd Eraethodd yr Athro A. O. H. Jarman yn feistrolgar ar "Saunders Lewis a'r Ysgol Fomio". Roedd hon yn em o ddarlith, ac yn un y dylai cynulleidfa eang gael y fraint o'i gwrando neu ei darllen.

* * *

Ar Ragfyr 15, yn yr Home Farm, Ffwl - y - Mwn, traethodd y Parch Rhys Nicholas, Porthcawl ar '"Thomas William, Bethesda'r Fro," dan nawdd Cylch Llenyddol Bro Morgannwg. Noson hyfryd ar aelwyd groesawgar, gyda Miss Ann Rosser wrth y delyn a Pharti Cyncoed yn cyfrannu at y ddarlith trwy roi i ni ddatganiad o emynau mawr a chyfarwydd y gwr hynod a fu'n byw ar un adeg yn y fferm lle cynhaliwyd y ddarlith. Thomas William oedd yr unig emynydd mawr a anwyd ac a fagwyd yn y fro - roedd yna eraill ddaeth yno o rannau eraill o Gymru wrth gwrs. Ef oedd awdur "O'th flaen o Dduw, rwy'n dyfod" a "Adenydd Colomen, pe cawn".

* * *

Un o nosweithiau mawr y mis oedd Rhagfyr 14. Honno oedd y noson pan roddwyd datganiad gan Gor Ysgol Rhydfelen yng Nghapel y Tabernacl. Y cyfanwaith oedd "Elias". A phrofiad gwefreiddiol oedd cael bod yn bresennol i weld a gwrando'r cor o ddau cant o aelodau yn mwynhau bob munud o'r ŵyl hon. Clod i Mrs. Lily Richards am hyfforddi'r plant (a'r rhieni), ac i Arwel Hughes yr organydd, a'r pedwar unawdydd graenus. Onid gwych yw gweld cor fel hwn yn canu y cyfanwaith hwn yn yr iaith Gymraeg?

* * *

**AWR FAWR**
**YSGOL GYMRAEG BRYNTAF**

Os na fuoch chi yn Neuadd Coleg Addysg Cyncoed ar Ragfyr 17 yn gwylio dau gant o blant Bryntaf yn chwarae eu pasiant ar "Grwydro Ceredigion" yna, fe gollasoch un o'r pethau gorau yn y Gymraeg a gynhaliwyd yn y ddinas ers blynyddoedd.

Dau gant o blant afieithus yn gwau stori mewn dawns a chân a drama - yn ein harwain trwy hanes Ystrad Fflur, Cantre'r Gwaelod, enwogion Sir Aberteifi, hwyl gwersyll Llangrannog, hen ffeiriau a'n herferion, efail y gof a'i swyn dihafal a'r anfarwol Twm Sion Cati. Roedd y rhaglen yn gyfoiriog o ddiwylliant a hanes, ac mae'n dda meddwl fod yna ddeucant o blant wedi eu trwytho ynddo. Ond fe gofir yn hir gan bawb a'i gwelodd, am y safon a osodwyd ar bopeth, am y graen ar bob cymal, am y cynllunio manwl a'r lliwgarwch deniadol. Wrth y plant, a'r athrawon yn arbennig Mrs. Rhiannon Evans, a'r prifathro, Mr. Tom Evans, rhaid dweud diolch mawr am y noson hon, a gofyn yn daer am rhywbeth cyffelyb eto y flwyddyn nesaf.

## CYFAMODI

Ar ôl troad y flwyddyn, bydd ffurflenni cyfamodi ariannol i Fudiad Ysgolion Meithrin Cymraeg ar gael gan Mr. Emyr Jenkins, Penderi, 7 Fairbrook Close, Rhiwbeina. Mae'r angen yn fawr, mewn maes holl bwysig i ddyfodol yr iaith; anfonwch ato am ffurflen ar unwaith.

Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus i ddechrau ymgyrch at gael

**YSGOL GYNRADD GYMRAEG**
**yn ardal**
**CREIGIAU**

**yn Neuadd yr Eglwys, Creigiau.**
**Nos Wener, Ionawr 8fed am 8.**
**Siaradwyr gwadd. Dewch yn llu.**

# COLOFN SBECTOL SIAN

Llygedyn o oleuni . . .?

'Roedd hi'n dda clywed fod Bwrdd Trydan De Cymru am arddangos y geiriau Cymraeg ar y faniau yn ystod y flwyddyn, - wedi gweld y goleuni tybed?

. . . yn y tywyllwch!

CITY OF CARDIFF – DINAS CAERDYDD
– papur swyddogol a ddaw i ben yn Ebrill.
SOUTH GLAMORGAN
– papur swyddogol a ddaw yn ei le Wfft i Hughes Parry a'r ffanatics

Sawl un ohonoch a basiodd ddrws capel Ebeneser dan eich baich o goed, tedi bers, parselydd, bagiau ag ati yn ystod prysurdeb y Nadolig? Os aethoch heibio yna fe golloch wledd. Wel coffi a bisgedi beth bynnag. Yno cefais y 'baned orau o goffi ers misoedd. Gobeithio fod y merched wedi gwneud elw anfarwol i fudiadau dyngarol. Roeddwn yn falch o'r cyfle i gyfrannu; neu efallai mai'r gwir oedd fy mod ofn pasio'r prifathro cyhyrog yn sefyll wrth y drws yn annog pawb i fewn!

"For Meseia read Messiah"

Nid peth dymunol yw gorfod barnu enwad crefyddol, yn enwedig ar ol canmol Ebeneser. Ysywaeth, pa ddewis sy gan un pan, yng nghanol syrffed o Seisnigrwydd sy, erbyn hyn yn rhan o'r Nadolig, y gwelir aelodau capel Heol y Crwys yn cyfrannu at hyn 'tan ganu' - wrth berfformio Meseia, Handel, yn Saesneg!

Ni allaf weld unrhyw synnwyr i gapel sy'n gymaint o gefn i'r iaith Gymraeg yn y brif ddinas, roi heibio pob egwyddor i ymffrostio mewn balchder o allu cyflawni gorchwyl fel hyn.

Yn y cyswllt hwn, tri pen sydd i'm mhregeth - Ni allaf yn fy myw gredu ei bod hi'n ormod o drafferth i ganu'r gwaith hwn yn Gymraeg.

Dylid anwybyddu'n llwyr unrhyw syniad 'uchelgeisiol', os y golygai hyn gicio'r iaith drwy ddrws y cefn - beth bynnag fo'r gwaith, a phwy bynnag fo'r artistiaid.

Os y cred pobl mai peth "eithafol" yw cwyno mor ddirfawr am gapel Cymraeg yn perfformio gwaith Saesneg i ddathlu'r Nadolig yna fe ddylai'r bobl hyn feddwl o ddifrif ble maent yn sefyll.

Fe wn mai cau drws y stabl ar ol i'r ceffyl fynd yw hyn ond gobeithio yn wir y saif rhai o'r aelodau yn gadarn y tro nesaf i sicrhau na chawn ni ail ddos o hyn. – "Ac yna llygaid y dall a agorwyd!"

Beth tybed, yw barn disgyblion yr ULPAN am hyn?

* * *

Dyma grwp dewr o Saeson a Chymry di-Gymraeg a benderfynodd fod yr iaith Gymraeg gwerth ei dysgu. Fe dreuliodd y grwp hwn ddwy awr, pum diwrnod yr wythnos, ac ambell ben wythnos am ddeng wythnos yn dysgu Cymraeg. Da iawn chi.

Mae'r ddyled yn fawr iawn i'r athrawon hynny a ymgymerodd a'r gwaith annodd hwn. Diolch o galon i chwithau hefyd.

* * *


'Roedd yn dda iawn gweld rhai o'r disgyblion yn mwynhau'r noson anfarwol i "Godi'r To". Dyma noson yr oedd Caerdydd ei hangen ers amser. Rwy'n edrych ymlaen yn eiddgar am y nesaf. Fe groniclwyd awyrgylch ag ysbryd y noson i mi ar y diwedd pan gododd pawb i ganu'r anthem genedlaethol. Pawb, hynny yw, gan gynnwys dol glwt a safodd yn barchus rhwng dwy ferch fach lon!

* * *

Diddorol oedd darllen yn y Dinesydd diwethaf am bennaeth adran deintyddol, ysbyty athrofa'r Waun. Ei enw? wel Mr. Swallow siwr iawn. – S'gwn i os yw Mark Spitz yn gweithio yno hefyd!

"Dysgid hwy drw' hanner eu lladd a'r iaith dros gyfnod byr. . ." geiriau Shoshana Eytan, un o sylfaenwyr cyntaf ULPAN yn Israel. (Y Cymro, Rhagfyr 4).

Gadewch i ni orffen, fel y dechreuwyd - wrth son am y goleuni - geiriau pwy yw rhain? "The British nation is always at its best when faced by a common danger" - y Cymro, Syr Julian Hodge! Blwyddyn newydd dda!








AMGUEDDFA WERIN CYMRU

GOFALWYR AMSER-LLAWN

Gwahoddir ceisiadau am swyddi Gofalwyr. Y mae'r Gofalwyr yn cyfrannu i Gynllun Pensiwn a hefyd cant lifrau addas i'r gwaith. Cyflog £23.99 yn codi i £24.83 yr wythnos ymhen 2 flynedd. Telir yn ychwanegol am waith gor-amser ar ddydd Sadwrn a phrynhawn Sul. Manylion pellach a ffurflenni cais oddiwrth y Swyddog Gweinyddol, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd, CF5 6XB.



- Os yw Cymru'n genedl, mae arni angen ei sefydliadau cenedlaethol.
- Mae gan athrawon Cymru eu Hundeb cenedlaethol eu hunain.
- Os ydych chi'n athro neu athrawes sy'n cyfri eich hun yn Gymro da, neu Gymraes dda, a heb fod yn perthyn i undeb eich gwlad eich hun, gwahoddir chi i gysoni'ch syniadaeth trwy ymuno ag :

UCAC

- Cewch berthyn iddo gan wybod nad ydych yn cynorthwyo i gynnal sefydliadau Llundeinig mewn moethusrwydd tra tanseilir rhwydwaith frau eich cenedl chi eich hun gan yr union sefydliadau hynny.

Tal Aelodaeth Llawn ... ... ... £7.00

Athrawon a adawodd y coleg
yn ystod Haf 1973 ... ... ... £3.50

Telerau arbennig i Athrawon Rhan-amser ac Athrawon Dros Dro.

Aelodaeth arbennig ar gyfer darpar-athrawon.

UNDEB CENEDLAETHOL ATHRAWON CYMRU
11 Heol Gordon, Caerdydd. CF2 3AJ. Tel: 24692.

# GOLEUWCH

# CYNHESWCH

# MWYNHEWCH 1974

# yng nghwmni LLYFRAU GOMER

LLYFRAU POCED GOMER

AR Y RHINIOG: Aneurin Jenkins Jones. 40c. Nofel gyfoes am broblemau Cymreictod trwy lygad pobl ifanc ar drothwy bywyd fel oedolion.

FE DDAW FFENICS YN OL: Maldwyn Jones. 40c. Dilyniant i'r nofel boblogaidd "O'r Anialwch".

HEL STRAEON: Gwyn Llywelyn. 40c. Helyntion gyrfa'r newyddiadurwyr adnabyddus o ddechrau ei yrfa ar bapur lleol i'r blynyddoedd cyffrous fel aelod o dim Y Dydd.

HEN BENILLION: T. H. Parry Williams. 50c. Ad-argraffiad o Hen Benillion y Cymry.

TOMOS A MARGED ETO: W. J. Gruffydd. 40c. Rhagor o straeon gafaelgar.

YM MHLYGION Y NOS: Hazel Charles Evans. 45c. Nofel gyntaf yn awdures yn sicr o apelio i'r ifanc.

I'R PLANT & DRAMA

I'R PLANT

CHWRWGL CYNTAF Y TYLWYTH TEG: T. H. Llwyd. 30c. Stori Hud a Lledrith.

HWIANGERDDI GWREIDDIOL: Rhiannon Davies Jones. 45c. Casgliad o Hwiangerddi a Darluniau Lliwgar Newydd Sbon. Anrheg ddelfrydol a ddaw ag oriau o bleser i'r plant a'r rhieni.

DRAMA

HARRIS: Islwyn Ffowc Elis. £1.25. Drama fu ar daith gan Gwmni Theatr Cymru yn son am y pregethwr tanbaid Hywel Harris.

BARDDONIAETH:

GWREICHION: Gwynne Williams. £1.25. Cyfrol o farddoniaeth gan fardd o athro Cymraeg wedi ei chyfeirio yn bennaf ar bobl ifanc ond yn eang ei hapel. Cyfrol ddarllenadwy tros ben.

Y FFIOL: Robert Owen. 80c. Cyfrol o farddoniaeth gan y diweddar Barch. Robert Owen, Llanllyfni, awdur y gyfrol boblogaidd "Yr Hen Lagonda".

Y FFYNNON FYW: M. Glyn Jones. 80c. Cyfrol o farddoniaeth. Derbyniodd yr awdur glod uchel gan y beirniad yn Eisteddfod Hwlffordd.

CERDDI NEWYDD I BLANT: T. Llew Jones. 40c. Casgliad o farddoniaeth sy'n llenwi'r bwlch amlwg mewn defnydd darllen difyr a chyfoes ar gyfer plant. Clawr papur.

LLYFRAU CLAWR CALED

UN NOSON DYWYLL: T. Llew Jones. 90c. Un arall o nofelau gafaelgar T. Llew Jones. Dyn ar geffyl yn dynesu at Dolborth yng nghannol nos ac yn gadael baban bach cyn carlamu i ffwrdd i'r nos.

BLYNYDDOEDD GLEISION: Robin Williams. £1.10c. Ysgrifau difyr yn amrywio o hanes llencyndod a Thriawd y Coleg i fywyd Jessie James. Thema'r ysgrifau yw "Llecynau gleision" sy'n dod a "chnwd o'r nwyfus a'r diddan i berllanau'r blynyddoedd.

TYFU: Jane Edwards. 90c. Stori anerferol am fywyd trwy lygad merch fach sy'n tyfu drwy gyfnod dyddiau ysgol. Ymgais arbennig iawn i ddarlunio merch fach sensitif yn ymateb i newidiadau y byd o'i chwmpas.

CYFROLAU SAESNEG

ARTISTS IN WALES II: Golygydd Meic Stephens. £1.75. Yr ail gasgliad o ysgrifau gan artistiaid, cerddorion ac awduron yn son am ddylanwad Cymru ar eu bywyd a'u gwaith.

HOME TO AN EMPTY HOUSE: Alun Richards. £2.10. Nofel dreiddgar am fywyd cyffredin yng nghymoedd De Cpmru yn llawn o sensitifrwydd, ffraethineb a sylwgarwch sydd yn nodweddiadol o awdur cyfres enwog yr Onedin Line.

GWASG GOMER

LLANDYSUL

CEREDIGION

FFON 2371

# MEURIG JONES



Ar yr ail ar hugain o Dachwedd bu farw Meurig Jones wedi salwch hir. 'Roedd yn enedigol o Fangor. Ymunodd a'r B.B.C., yn ystod y rhyfel ac yn ddiweddarach bu'n gwasanaethu gyda'r Llu Awyr.

Dychwelodd i weithio yn adran recordio'r B.B.C., wedi'r Rhyfel, a bu'n gweithio gyda'r Gorfforaeth yng Nghymru yn ddi-dor wedyn tan ffurfio cwmni teledu TWW.

Pan aeth y cwmni hwnnw ar yr awyr yn 1958 Meurig Jones oedd y cyfarwyddwr Cymraeg cynta. Treuliodd weddill ei oes yn gwasanaethu TWW a Chwmni teledu Harlech, ac yn y blynyddoedd diwethaf ef oedd Prif Swyddog cynllunio rhaglenni'r cwmni. Derbyniodd yr M.B.E., am ei wasanaeth i ddarlledu yng Nghymru.

'Roedd yn 50 oed ac yn briod a chanddo ddau o blant. Bu'n aelod ffyddlon o gapel y Tabernacl yng Nghaerdydd, ac yno y cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol ddydd Mawrth y seithfed ar hugain o Dachwedd pryd y daeth cynulleidfa niferus o'i gyd-aelodau, ei gymdogion a'i gydweithwyr i dalu teyrnged iddo ac i fynegi eu cydymdeimlad. Cymerwyd rhan gan ei Weinidog y Parchedig Raymond Williams a chan y Parchedig Ifan R. Williams, Caerdydd, cefnder i Mr. Jones. Yn y cynhebrwng mewn teyrnged ar ran ei gydnabod a'i gydweithwyr dywedodd Gwyn Erfyl:

*"Ym marwolaeth Meurig Jones cafodd HTV golled fawr.*

*Fe ddeuthum i'w adnabod gyntaf dros ddeng mlynedd yn ôl. Yr adeg honno, ar y dechrau, fel gwr pell "swyddogol"... Yna, yn y blynyddoedd diwethaf yma, fe ddaeth Meurig arall i'r wyneb ac yr oedd i hwnnw ddynoliaeth a chadernid.*

*Roedd gair, fel addewid, yno i'w gadw, a gwaith yn rhywbeth i'w gyflawni yn drylwyr ac onest. Gallai gynllunio heb gynllwynio a gwell oedd ganddo ddweud ei feddwl yn blaen na defnyddio dulliau mwy ystrywgar a dauwynebog.*


*Wynebodd ei boen a'i farw gyda'r un gwroldeb ac urddas. Bu'n fonheddwr.*

*Yn ei golli gobeithio iddo ddysgu pob un ohonom ni i dreulio mwy o'n hamser yn cyfrif ein bendithion (a'n dyddiau) a llai yn rhestru'n man gwynion."*

# DRAW DROS Y MOROEDD

Un arall o gyn ddisgyblion Bryntâf sydd wedi mentro i wlad bell yw Stephen Jones mab hynaf Richard a Beti Wyn Jones, Menai, The Rise, Llanishen. Mae Stephen wedi bod yn gweithio fel meddyg yn Ysbyty Wentorth, Durban, De Affrig ers mis Hydref. Ychydig ddyddiau yn ol derbyniodd rifyn o'r Dinesydd mewn parsel o gylchronnau meddygol, ond bu rhaid iddo ymweld a dyn "Customs" a rhoi eglurhad manwl o gynnwys "Y Dinesydd", gobeithio na chaiff ei daflu i garchar oherwydd iddo dderbyn papur newydd mewn iaith mor ddieithr yn yr Affrig!!

# PORTREAD O ESGOB LLEOL



*Erbyn hyn fe ddisgwyliai'r rhelyw glywed mai Gwyddel wedi dysgu Cymraeg fyddai Esgob Pabyddol o'r enw Donal Mullins, neu Daniel Mullins fel y geilw ei hun yn Gymraeg. Yn wir mae ganddo enw arall Donal Wyddel, a fabwysiadwyd ganddo pan dderbyniwyd ef i'r Orsedd yn eisteddfod Rhuthun.*

*Daeth yr Esgob Mullins yn gyfarwydd i lu o Gymry erbyn hyn gan iddo ymddangos ar y teledu a'r radio ac iddo fynychu'r eisteddfod genedlaethol ers blynyddoedd. Bu hefyd ar ambell bwyllgor megis yr un a fu'n ceisio ffyrdd i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn llysoedd y Goron. Ond ar y cyfan, tu allan i Gymru y gweithia, gan arolygu holl gaplandai Pabyddol prifysgolion Cymru a Lloegr.*

*Fe aned Daniel Mullins yn Limeric ym 1929 yn un o bump o blant, a iaith yr aelwyd oedd Saesneg. Dysgodd y plant heniaith eu gwlad yn yr ysgol, ac mae'r Esgob wedi siarad am Gymru mewn Gwyddeleg ar Radio Eireann. Aeth i'r Ysgol Uwchradd ym Mt. Melleray, a phenderfynu yno, yn 15 oed, ei fod am fynd yn offeiriad. Aeth i astudio mewn athrofa yn Oscott, Birmingham ym 1947, wedi dewis bod yn genhadwr yng Nghymru. Fe'i hordeiniwyd ym 1953 yn Limeric gan ei hen esgob. Ordeiniwyd yntau yn Esgob yn Nghadeirlan Dewi Sant Caerdydd ym 1970, i fod yr esgob Pabyddol ieuengaf yng Nghymru a Lloegr (fel arfer trafodir y ddwy wlad fel un uned, ysywaeth, gan yr Eglwys Babyddol.) Er mai Esgob Mygedol Stowe ydi ei deitl swyddogol, Esgob Cynorthwyol Caerdydd ydi'r Tad Mullins, ac mae ganddo eglwys blwyf hefyd ym Mhenarth lle mae'n byw.*

*Yn ei waith, yn enwedig gydag addysg ym Morgannwg, fe fu'n cydweithio a llu o swyddogion yn y sir ac yn y brifddinas, ac mae ganddo'r ddawn i ennill pobl gyda'i argyhoeddiadau dwfn, ei sirioldeb a'i gadernid cymeriad. Bu iddo ennill llawer brwydr dros yr iaith ymysg y genhedlaeth hyn ymysg mewn-ddyfodiaid Pabyddol Caerdydd a Morgannwg yn enwedig y Gwyddelod, a oedd wedi bod yn elyniaethus iawn i Gymru oherwydd rhesymau hanesyddol y mae arnom ninnau i gyd fai amdanynt.*

*Gweithiwr yn y dirgel ydi'r Esgob wrth natur, ond mae'n gamgymeriad i gymeryd ei deyrngarwch i'w eglwys ac i unigolion fel arwydd o wendid Fe ddysg y cyfarwydd fod ei deyrngarwch yn hawlio parch i argyhoeddiadau'r esgob yntau, a dyna sut y dyrchafodd ef statws y Gymraeg o fewn yr archesgobaeth yn nannedd gwrthwynebiad ffyrnig ar adegau. Yn hyn o beth mae'n cynrychioli brwydr bwysig sydd ond yn dechrau cael ei hymladd, sef Cymreigeiddio'r mewn-fudiaid a ddaeth o wledydd heblaw Lloegr, ac mae llawer iawn o'r rhain yn Babyddion. Yn hyn o beth eto, mae'r Esgob Mullins yn dilyn ôl traed y diweddar Archesgob McGrath, gwrthrych awdl enwog Saunders Lewis. A gobeithia'r Pabyddion Cymraeg y bydd yn dal i ddilyn llwybr Dr. McGrath.*


*Yn wir mae'r Esgob yn ddisgybl i'r ddau uchod. Pan ddaeth i Goleg Mair, Aberystwyth, ym 1944, cyn mynd i Oscott, fe ddaeth i gysylltiad a'r Gymraeg, ond pan symudwyd y coleg i Landeilo'n fuan wedyn, daeth dan ddylanwad Saunders Lewis oedd yn dysgu Cymraeg yno, a pharhaodd y dylanwad wedi i'r Gwyddel ifanc fynd ymlaen i'r athrofa ym Mirmingham. Daeth yn ôl ym 1953 i fod yn gurad yn y Barri, ac aeth i blwyf Maesteg ym 1956 hyd 1960. Yno fe glywai'r iaith ac fe'i dysgodd yn drwyadl, ac mae ôl yr ardal ar ei dafodiaith. Cafodd bob cefnogaeth i ddysgu Cymraeg gan yr Archesgob McGrath, ac wedi i hwnnw farw, daeth y Tad Mullins yn Gaplan i'r Brifysgol yn y Brifddinas. Ond o 1961 yr oedd yn dilyn y cwrs gradd Cymraeg a drefnwyd iddo gan Dr. McGrath.*

*Ym 1964 graddiodd gydag anrhydedd yn y dosbarth cyntaf yn y Gymraeg yng Nghaerdydd, ac fe ddisgwylid iddo wneud ymchwil ar waith Prydydd y Moch. Yr oedd hefyd wedi gwneud llu o gyfeillion yn y coleg. Yr oedd wedi etifeddu diddordeb ysgolheigaidd Dr. McGrath mewn astudiaethau Celtaidd ac mewn llenyddiaeth Gymraeg. Yn ogystal roedd wedi etifeddu llyfrgell ysblennydd ei noddwr, a daliodd i ddarllen yn helaeth mewn llen a hanes ein gwlad. Mae ei wybodaeth o hanes Pabyddiaeth yn y de yn anhygoel a gobeithio y cawn gyfrol Gymraeg ganddo ar y pwnc rhywdro, yn ogystal a'r gwaith ar Prydydd y Moch. Ond ar hyn o bryd mae'n rhy brysur i roi pin ar bapur. Yn wir ni chafodd ysbaid wedi graddio, gan iddo gael ei wneud yn Ysgrifennydd i'r Archesgob bewydd, Dr. Murphy, ac wedyn yn Ficer-Cyffredinol i Archesgob Caerdydd, ac yn Fonsignor, sef prelad uchel ond heb fod yn esgob. Yn y man, daeth yn esgob. Pan ddyrchafwyd nifer o Gymry i fod yn seintiau gan Pab Pawl ym 1970 yn Eglwys St. Pedr yn Rhufain, safai'r Esgob Mullins wrth ochr y Pab yn datgan ei enw ef, mewn Cymraeg croyw, enwau'r seintiau oedd yn cael eu canoneiddio. Fel yr unig Esgob Pabyddol Cymreig, heb son am Gymraeg, fe ddisgwylir llawer iawn ganddo, a does ond gobeithio y caiff flynyddoedd maith o iechyd inni gael elwa ar ei lafur dros ei eglwys a thros Gymru. O gael mewn-fudiaid fel ef i'n plith, does ond eisiau dweud: Melys: moes mwy!*

OS AM GYSODI AC ARGRAFFU PAMFFLEDI
TOCYNNAU, PAPURAU – UNRHYWBETH
CYSYLLTWCH Â

**Mid-Wales Litho**

NEW RD. CRUCYWEL, SIR FRYCHEINIOG.
Ffôn CRUCYWEL 302



YCHWANEGWCH y gorau i'ch cartref...

Dewiswch o'r gwlau, goleuadau, a'r celfi gorau yng Nghymru.

Discownt sylweddol ar wlau a chelfi.

**Ni yw'r arbenigwyr**

**Sleep & Light Centre**

10/11 Mill Lane, Caerdydd. Tel. 23539

Ar agor 6 diwrnod yr wythnos 9 a.m.–5 p.m.
NOSON HWYR – NOS IAU HYD 7.30 p.m.

# Y Cymru ar waith ym Mhenarth

**Difyrrwch diferol oedd cyfarfod mis Rhagfyr y Gymdeithas Gymraeg yma a gynhaliwyd ar nos Fercher cyntaf y mis, sef, y 5ed. Cynhelir holl gyfarfodydd y Gymdeithas hon ar y nos Fercher gyntaf yn y mis. Y tro hwn noson o "Pawb yn ei Dro" ydoedd gyda Chymdeithas Gymraeg y Barri. Daeth cynrychiolaeth nerthol a chadarn drosodd o'r Barri a gyrru i'w chynrychioli yn yr ornest bedwar gwr na ellid mesur eu maint wrth hyd a lled corff ond wrth gyhyredd meddyliol. A phwy oedd y gwyr nerthol hyn? Neb llai na'r Meistri (mor gwir y gair!) John Bevan, Islwyn Jones, Urien Williams a John Williams o Goleg Addysg y Barri. Yr oedd y cyfraniad hwy, fel y gellid disgwyl yn gwbl arbennig a nid yn unig oherwydd eu gwybodaeth ond yn gymaint oherwydd eu hysbryd a'u hasbri. Ond ni ddallodd eu disgleirdeb hwy mo olwg tim Cymdeithas Penarth hithau. Cynrychiolwyr Penarth oedd y Boneddigesau Ardudful Morgan a Gwen Stanton a'r Bonedd J. S. Breese a B. J. Griffiths. Yr Holwr oedd y Bonwr John Morgan o Waun Cae Gurwen sy'n athro yng Nghaerdydd. Yn cadw'r cyfrif, mor onest ag oedd modd, oedd y Bonwr Maxwell Evans, ysgrifennydd gweithgar Cymdeithas Penarth. Y canlyniad teg oedd y ddau dim, yn y diwedd, ar ol bod i fyny ac i lawr dipyn ar hyd yr ornest, yn gyfartal gyd a 175 o farciau'r un.**

Yr oedd yn noson wrth fodd calon cynulleidfa dda. Yn y gynulleidfa yr oedd nifer o ddysgwyr. Y mae Cymdeithas Penarth wedi ymgymryd a hybu a noddi achos y dysgwyr ym Mhenarth sy'n lluosog iawn gydag amryw ddosbarthiadau yn mynd ymlaen yma. Gwahoddir y rheiny i'r cyfarfodydd er mwyn iddynt gynefino a swn a geirfa'r iaith. Cyferfydd nifer ohonynt hefyd bob wythnos gyda rhai o aelodau'r Gymdeithas i ymarfer yr iaith ac i gael pob cymorth y gellir ei roi iddynt yn eu hymdrech glodwiw i ddysgu'r iaith a'i hymarfer hi. Fe drefnwyd rhyw fath o Ysgol Sul iddynt hefyd bob prynhawn Sul yng nghapel yr Annibynwyr, Bethel, Plassey Street, eto yng ngofal rhai o aelodau cyfarwydd y Gymdeithas. Y mae brwdfrydedd mawr ym mhlith y Dysgwyr ym Mhenarth a nifer mawr wrthi a'u holl egni yn dysgu.

### YSBARDUN

Y mae bodolaeth yr Ysgol Gymraeg yn ysbardun i'r chwiw Gymreig hon. Yr Ysgol Gymraeg yng Nghogan yn cynyddu o dymor i dymor. Ac y mae ymdrechion mawr i ddatblygu'r Ysgol Feithrin sydd yn cwrdd yn gyson yn festri eglwys Stanwell Road. Ond lle go Seisnig neu Seisnigaidd onid Seisnyglyd ydyw Penarth yn llawn o ymfudwyr o Dde Orllewin Lloegr a'r Gororau.

Cyfarfod nesaf rheolaidd Cymdeithas Penarth fydd nos Fercher Chwefror 6ed pan fydd Hywel D. Roberts o Goleg Addysg Caerdydd gyda ni yn darlithio, ef yn ddysgawdwr a darlithydd poblogaidd a darlledwr a phrofiad helaeth ganddo. Yn y cyfamser bwriedir cynnal Gwylnos nos Galan i ganu'n iach i 1973 ac i groesawi 1974. Byddys yn hysbysu'r manylion am y nos honno yn nes ymlaen.

# HANES YR URDD

Nos Lun y 10fed o Ragfyr yng Nghanolfan yr Urdd yn Heol Conwy, cynhaliwyd Cyfarfod Lansio cyfrol bwysig Miss Gwennant Davies - The Story of the Urdd.

Roedd cynulliad da o barchus bobol yn bresennol i dalu teyrnged i Miss Davies. Cyflwynwyd tri chopi o'r gyfrol; i'r awdures gan Alun Creunant Davies (Cadeirydd Cyngor yr Urdd a Chadeirydd y Noson), i Lady Edwards (Llywydd yr Urdd) gan Emyr Currie Jones (Cyfreithiwr Mygedol yr Urdd a Chadeirydd Cyngor newydd De Morgannwg), ac i gynrychiolydd Adran Addysg a Gwyddoniaeth (yn ei absenoldeb) gan J. Cyril Hughes (Cyfarwyddwr y Mudiad).

Yn ei haraith, dywedodd Miss Gwennant Davies fod gwir angen am gyfrol Saesneg am yr Urdd gan fod gan y mudiad gyfrifoldeb i'r di-Gymraeg. Gobeithiai y byddai'r gyfrol hon yn gyfrwng cyfathrebu rhwng y Cymry Cymraeg a'r Cymry di-Gymraeg. Cywasgu tair cyfrol R. E. Gruffydd a wnaeth hi - tasg anodd ar y naw!

Yr un oedd cainc araith Emyr Currie, a'r un oedd ei obaith. Dywedodd fod pobl Caerdydd yn dod yn fwy Cymreig bob dydd! Roedd ef ac Alun Creunant yn gobeithio y byddai ysgolion Caerdydd a De Morgannwg yn gosod y gyfrol hon ym mhob ysgol.

I gloi'r noson, cafwyd datganiadau gan Mrs. Elinor Wigley a Mrs. Menna Joynson - dwy chwaer a fu'n canu gyda'u gilydd ddeng mlynedd yn ol. Roedd y swyn yn dal, a llanwyd y neuadd a seiniau Y Border Bach, ac Eifionydd.

# EISTEDDFOD GADEIRIOL

Tybed wyddoch chi fod yna Steddfod Gadeiriol i'w chynnal yn Neuadd Efail Isaf ar Sadwrn, Mawrth 9fed 1974? Dyma i chi rai o'r cystadleuthau:-

Englyn 'Y Garth'
Englyn Digri 'Y Meddwyn'
Englyn Coch
Parti Cerdd Dant
Grwp Can Ysgafn
Cor 'Huddersfield'
Pedwarawd ac Wythawd
Cyd-adrodd darn o waith Waldo
Cerdd y Gadair 'Tua'r Dwyrain' neu 'Y Tafod'

Rhaglenni o 42 Ffordd Tywyn, Ton-teg, Pontypridd. Beth am gefnogi yr ymgais hon i atgyfodi steddfodau yn y cylch? Mae angen dipyn o hwb ar y trefnwyr.

Os am geisio am y gadair, neu ar yr englyn coch yn Steddfod Efail Isaf, beth am ymuno a'r dosbarth cynghaneddu sy'n cychwyn ar nos Fawrth, Ionawr 15 1974 yn Ystafell 1 Coleg y Brifysgol, Caerdydd. Enwau i Meredydd Evans ar fyrder os gwelech yn dda.

# Dalier sylw

Bydd Miss Gaenor Edwards, yn cychwyn yn ei swydd o Drefnydd Mudiad Ysgolion Meithrin Cymraeg ar Ionawr 1af. Croeso iddi, o Sir y Fflint, lle bu'n flaenllaw fel athrawes a chyda'r Urdd. Bydd ei swyddfa yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conway.- Priodol hefyd fyddai diolch i Mrs. Bethan Roberts, Radyr am ei chyfraniad mawr hyd yma fel Ysgrifennydd Cyffredinol a Threfnydd y Mudiad a gellir honni yn ddi-ddadl na fyddai'r fath lewyrch ar y mudiad onibai am ei llafur diflino yn ystod y flwyddyn diwethaf. Bellach ysgafnheir ei baich hi gan ddyfodiad Miss Edwards i'n plith.

# CLWB CYMRIC

Mae'n amlwg nad oes neb y dyddiau hyn nad sy'n dioddef effeithiau'r llywodraeth.

Nid yw clwb Cymric yn eithriad wrth gwrs. Arwahan i golli cawod boeth ar ôl ymarfer chwyslyd mae'r dannedd yn brathu'n ddyfnach.

Oes gwir yn yr haeriad fod Edward H. wedi gorchmynnu cwtogi nifer y chwaraewyr mewn tim? Ydy presenoldeb naw ffyddlonwr yn unol a ffês thri? Chwaraeodd y tim cyntaf ddwy gem gyda deg dyn yn unig, y mis diwethaf, a dim ond drwy lwc hollol y cafwyd unarddeg yn lle naw ar Ddydd Sadwrn arall, ag arbed cythral o stid.

Gobeithio y bydd pob un yn addunedu ei fod yn dangos ychydig mwy o gyfrifoldeb yn 1974.

'Rydym, fel clwb yn falch iawn o groesawu dau sy'n dysgu Cymraeg (o ddifrif!) - Malcolm McGreevy, chwaraewr effeithiol yng nghanol y cae; a Dave Wright (Dai Iawn i'w ffrindiau!) a ddaeth atom yn grasboeth o'r ULPAN. Mae'n dda gweld y ddau yn ychwanegu at eu geirfa liwgar gyda ni bob Sadwrn. Peth mawr yw addysg!





## SIOP Y TRIBAN

**WYNDHAM ARCADE . CAERDYDD**

*y gorau o lyfrau, recordiau, cardiau, cylchgronau*

Galwch i'n gweld

SIOP Y TRIBAN

Caerdydd



Adran Efrydiau Allanol Coleg y Brifysgol Caerdydd

**Y CYNGANEDDION**

**Cwrs o 12 darlith gan T. Gwyn Jones.**

Dipyn o hwyl yng nghwmni'r Groes ar Draws, ar Sain ar lusg
Cofrestru yn y cyfarfod cyntaf.

Rhwng 7 p.m. a 9 p.m. bob Nos Fercher,
yn cychwyn ar Ionawr 16
yn Stafell 1, 38 Park Place,
Caerdydd.

*gellir cael manylion ychwanegol gan y Dr Meredydd Evans, Adran Efrydiau Allanol, 38 Park Place, Caerdydd.*



## Amgueddfa Werin Cymru

**SAIN FFAGAN**

Dowch i weld : Y Castell a'i Erddi, Ysgubor y Strytlydan, Ffatri Wlan Esgair Moel, Capel Pen-rhiw, Ffermdai Abernodwydd, Cilewent, Kennixton, Hendre'r ywydd Uchaf Bwthyn Llainfadyn, Y Tanerdy, y Talwrn Ymladd Ceiliogod, y Tollborth a'r Efail, Dylech hefyd weld yr Oriel Ddiwylliant Materol lle dangosir agweddau ar fywyd a chymdeithas yng Nghymru.

Gwelwch hefyd y Crefftwyr wrth eu gwaith.

Os ydych yn cymryd diddordeb mewn traddodiadau llafar, canu gwerin neu dafodieithoedd Cymru, holwch am yr Adran Draddodiadau Llafar a Thafodieithoedd.

Gellwch cael cinio a the yn yr Ystafell Fwyta ond dylid gwneud trefniadau ymlaen llaw ar gyfer partion niferus. Eich BWS o GAERDYDD yw rhif 32 o'r ORSAF FYSIAU GYFFREDINOL.

MYNEDIAD: Pobl mewn oed 10c (20c Gorffennaf ac Awst)
Plant o dan 16 5c.
Pensiynwyr yn rhad.
Dosbarthiadau ysgol yn rhad pan drefnir ymlaen llaw.
Mynediad am ddim ar Ddydd Llun.
(ac eithrio gwyliau cyhoeddus).

MAES PARCIO: Bysiau 15c
Ceir Preifat 11c
Beiciau Modur 5c

ORIAU AGOR:
Dyddiau'r Wythnos: Ebrill, Mai, Mehefin a Medi 10.00 a.m. – 6.00 p.m.
Gorffennaf ac Awst 10.00 a.m. – 7.00 p.m.
Hydref – Mawrth 10.00 a.m. – 5.00 p.m.
Suliau: Ebrill – Medi 2.30 p.m. – 7.00 p.m.
Hydref – Mawrth 2.30 p.m. – 5.00 p.m.



**COLEG Y BRIFYSGOL, CAERDYDD**

Yn eisiau ar gyfer 1af Ionawr, 1974

**YSGRIFENYDDES GYNORTHWYOL AMSER LLAWN**

yn yr

**UNED YMCHWIL IEITHYDDOL GYMRAEG**

Disgwylir i'r ymgeiswyr fod yn hyddysg mewn teipio a llaw fer a bod ganddynt wybodaeth drylwyr o'r iaith Gymraeg. Telir cyflog yn ol oedran a phrofiad o fewn graddfa yn codi o £1026 i £1416 y flwyddyn.

Dylid anfon ceisiadau at:–

Y COFRESTRYDD, COLEG Y BRIFYSGOL, PARC CATHAYS, CAERDYDD, CF1 1XL, erbyn y 26eg o Ionawr, 1974 yn rhoi manylion ynglyn ag oedran, addysg a phrofiad ac yn nodi enwau dau berson y gellir ymgynghori a hwy.


*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor y Dinesydd. Cysodi a chynllunio gan Cysodi Elgan. Argraffwyd gan "Mid Wales Litho".*